

Wrth ystyried y manau sydd ar gael, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu defnyddio i benderfynu ar y plant y mae lleoedd i'w cynnig:

Safle Blaenoriaeth	Maen Prawf
<b><i>Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (gofyniad statudol ar gyfer derbyn)</i></b>	
1.	Bydd plant sy'n derbyn gofal neu blant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol h.y. plant sydd dan ofal neu sydd wedi bod o dan ofal yr Awdurdod Lleol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 2-8 isod. <b>(gweler adran 9.0)</b>
2.	Rhoddir blaenoriaeth i blant ag amgylchiadau meddygol eithriadol dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 3-8 isod <b>(gweler adran 7.5)</b>
3.	Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol a ffafir sydd â brodyr a chwiorydd perthnasol dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 4-8 isod <b>(gweler adrannau 7.6 a 7.7)</b>
4.	Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol a ffafir, ond sydd â brodyr a chwiorydd perthnasol a fydd yn parhau i fod yn bresennol yn yr ysgol a ffafir oherwydd eu bod yn aflwyddiannus yn eu cais am le yn yr ysgol ddalgylch yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 5-8 isod <b>(gweler y nodiadau esboniadol isod, ac adran 7.6)</b>
5.	Bydd plant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch, ond gyda brodyr a chwiorydd presennol sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol a ffafir erbyn Medi 2019, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 6-8 isod <b>(gweler y nodiadau esboniadol isod, ac adran 7.6 )</b>
6.	Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw y tu mewn i ddalgylch yr ysgol a ffafir dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 7-8 isod <b>(gweler adran 7.7)</b>
7.	Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol a ffafir, gyda brawd neu chwaer perthnasol (a fydd yn bresennol yn yr ysgol a ffafir ar adeg derbyn) nad yw'n bodloni pwyntiau meini prawf 4 a 5 uchod <b>(gweler adran 7.7)</b>
8.	Ar ôl cymhwyso'r categorïau uchod, neu os yw'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa o ordanysgrifio yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd y flaenoriaeth yn seiliedig ar agosrwydd i'r ysgol a ffafir, wedi'i fesur gan ddefnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf.

Fel eglurhad, bydd unrhyw ordanysgrifiad yn y meini prawf uchod yn arwain at benderfyniad terfynol dyraniad lle'n cael ei wneud ar bellter.

Felly, er enghraifft, os oes mwy o geisiadau na lleoedd ar gael ar ôl cymhwyso pwynt 6 uchod, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i'r plant hynny y mae eu cyfeiriad cartref wedi'i nodi fel yn agosach at yr ysgol a ffafir.

### **Nodiadau Esboniadol**

Safle Blaenoriaeth 4 - Byddai'r maen brawf hwn yn berthnasol dim ond os yw rhiant wedi bod yn aflwyddiannus wrth gael lle i'w plentyn yn eu hysgol dalgylch, ac wedyn mae'n mynychu ysgol arall gyda brawd neu chwaer iau sy'n gymwys i fynychu.

Safle Blaenoriaeth 5 - Byddai'r maen brawf hwn yn berthnasol i frodyr a chwiorydd presennol yn unig, a osodwyd ar y gofrestr yn yr ysgol a ffafirir erbyn Medi 2019, gyda brodyr a chwiorydd iau yn gymwys i ddechrau Ysgol Gynradd (Dosbarth Derbyn) ym mis Medi 2020, Medi 2021, Medi 2022, Medi 2023, a Medi 2024